

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2017 Rhif 954 (Cy. 241) (C. 88)**

**TRETHI, CYMRU**

Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli  
Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn  
Rhif 1) 2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol y Ddeddf ar 18 Hydref 2017. Mae'r darpariaethau hyn yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel corff corfforaethol ac yn caniatáu i waith gael ei wneud i baratoi ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig. Maent hefyd yn rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2017 Rhif 954 (Cy. 241) (C. 88)**

**TRETHI, CYMRU**

**Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli  
Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn  
Rhif 1) 2017**

*Gwnaed*

*28 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 194(2) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(1).

**Enwi a dehongli**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 18 Hydref 2017**

2. Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 18 Hydref 2017—

adran 2 (Awdurdod Cyllid Cymru);

adran 3 (aelodaeth);

adran 4 (anghymhwysio rhag penodiad fel aelod anweithredol);

adran 5 (telerau aelodaeth anweithredol);

adran 6 (penodi aelod gweithredol etholedig);

adran 7 (diswyddo aelodau etc.);

adran 8 (pwyllgorau ac is-bwyllgorau);

adran 9 (prif weithredwr ac aelodau staff eraill);

adran 10 (gweithdrefn);

adran 11 (dilysrwydd trafodion a gweithredoedd);

adran 12 (prif swyddogaethau);

---

(1) 2016 dccc 6.

adran 13 (awdurdodiad mewnol i gyflawni swyddogaethau);  
adran 14 (dirprwyo swyddogaethau);  
adran 15 (cyfarwyddydau cyffredinol);  
adran 16 (defnydd ACC a'i ddirprwyon o wybodaeth);  
adran 17 (cyfrinachedd gwybodaeth warchoddedig am drethdalwr);  
adran 18 (datgelu a ganiateir);  
adran 19 (datganiad ynghylch cyfrinachedd);  
adran 20 (y drosedd o ddatgelu gwybodaeth warchoddedig am drethdalwr ar gam);  
adran 21(1) (achosion llys);  
adran 22 (tystiolaeth);  
adran 23 (cyllid);  
adran 27 (cynllun corfforaethol);  
adran 29 (cyfrifon);  
adran 33 (swyddog cyfrifo);  
adran 34 (cofnodion cyhoeddus Cymru);  
adran 35 (yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus);  
adran 66 (cyfoethogi anghyfiawn: trefniadau talu'n ôl);  
adran 69(3) a (4) (dyletswydd i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel);  
adran 101(3) a (4) (diogeliad ar gyfer gohebiaeth freintiedig rhwng cynghorwyr cyfreithiol a chleientiaid);  
adran 163 (cyfraddau llog taliadau hwyr a llog addaliadau); ac  
adran 167 (ffioedd talu).

*Mark Drakeford*  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth  
Leol, un o Weinidogion Cymru  
28 Medi 2017